

# OWAIN ap GRUFFYDD, neu OWAIN GOCH (fl. 1260), tywysog yng Ngwynedd

**Enw:** Owain ap Gruffydd

**Rhiant:** Senena ferch Caradog

**Rhiant:** Gruffydd ap Llywelyn

**Rhyw:** Gwryw

**Galwedigaeth:** tywysog yng Ngwynedd

**Maes gweithgaredd:** Gwleidyddiaeth a Mudiadau Gwleidyddol; Teuluoedd Brenhinol a Bonheddig

**Awdur:** Thomas Jones Pierce

mab hynaf [Gruffydd ap Llywelyn I](#), a Senena, a brawd [Llywelyn II](#). Cadwyd ef yn garcharor gan ei frawd [David II](#) am flynyddoedd eithr trefnodd y brenin Harri III, yng nghytundeb Woodstock (1247), iddo gael cyfran o Eryri. Wedi brwydr Bryn Derwin (1254) cymerth [Llywelyn II](#) ei diroedd oddi arno a bu mewn carchar yr eiltro, ac am gyfnod hir. Bu raid i [Llywelyn](#) ei ryddhau, fodd bynnag, wedi'r gorchfygiad darostyngol a ddiodeffodd hwnnw yn 1277, a gwneuthur Owain yn arglwydd ar ran o L n. Cesglir iddo farw cyn y trychineb olaf (1282), eithr gweler farn arall, nad oes fawr o dystiolaeth o'i phlaid, yn *Trafodion Anrhydeddus Gymdeithas y Cymmrodorion*, 1899-1900, 44-7. Nid oes ddadl nad [Owain Lawgoch](#) oedd y dioddefwr mwyaf oblegid ymgyrch y ddau Lywelyn yn erbyn yr arfer o rannu tiroedd yn gyfartal rhwng etifeddion.

## Awdur

Yr Athro Thomas Jones Pierce, (1905 - 1964)

## Ffynonellau

J. E. Lloyd, *A History of Wales from the Earliest Times to the Edwardian Conquest* (London 1911), Cyf. I

J. E. Lloyd, *A History of Wales from the Earliest Times to the Edwardian Conquest* (London 1911), Cyf. II

*Littere Wallie* (1940)

*Calendar of Ancient Correspondence concerning Wales* (1935)

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/> 

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

